Cyd-gyngor Cymwysterau

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar ran:

AQA, City & Guilds, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Cyfrifoldeb penaethiaid canolfannau i gyflwyno adroddiad am gamymddwyn

Hoffai'r CGC gymryd y cyfle hwn i atgoffa penaethiaid canolfannau eu bod yn gyfrifol, yn ôl *Cod Ymarfer TGAU, TAG a DUE* y rheolyddion am gyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu perthnasol am unrhyw achosion o gamymddwyn a amheuir o ran ymgeiswyr, athrawon, goruchwylwyr neu staff gweinyddol eraill (*Cod Ymarfer*, Adran 8, tudalen 43).

Mae manylion llawn am y cyfrifoldeb hwn yn cael eu rhoi yng nghyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau*, sy'n nodi:

Mae gofyn i benaethiaid canolfannau gyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu priodol cyn gynted ag y gall am unrhyw amheuon o gamymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol. Yr unig eithriad i hyn yw camymddwyn sy'n cael ei ddarganfod mewn gwaith cwrs cyn i'r ffurflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr ymgeisydd.

Gellir defnyddio'r ffurflen JCQ/M1 a gyhoeddwyd yn y ddogfen CGC uchod i gyflwyno adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd camymddwyn yn cael ei amau, yn rhestru enghreifftiau o gamymddwyn a'r cosbau am dorri rheoliadau'r arholiadau.

Yna, mae'n nodi bod methiant i gyflwyno adroddiad am achos o gamymddwyn a amheuir, mewn arholiadau neu asesiadau, i'r corff dyfarnu priodol cyn gynted â phosib ar ôl iddo ddigwydd neu gael ei ddarganfod, ynddo'i hun, yn gamymddwyn.

Mae'r cyrff dyfarnu'n gwerthfawrogi cydweithrediad pob canolfan wrth gyflwyno adroddiad am gamymddwyn a amheuir. Mae'r cydweithrediad hwn yn hanfodol o ran sicrhau tegwch y system arholiadau gyhoeddus i bawb.

Gellir llwytho'r cyhoeddiad CGC uchod i lawr o wefan y CGC yn Saesneg yn:

www.jcq.org.uk/exams_office/malpractice/

neu mae fersiwn Gymraeg ar gael ar wefan CBAC yn:

www.cbac.co.uk/index.php?nav=82